HYSBYSIAD ETHOLIAD

Cyngor Cymuned Gelligaer

Ethol Cynghorydd

ar gyfer y Ward a restrir isod

Ward	Nifer y Cynghorwyr i'w hethol
Tir-y-berth	1

1. Mae modd anfon papurau enwebu at y Swyddog Canlyniadau yn Nhŷ Gilfach, William Street, Gilfach, Bargod CF81 8ND ar unrhyw ddiwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn, o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 10.00am a 4.00pm (ac eithrio gwyliau banc), ond erbyn 4pm ar 3 Chwefror 2023 ar yr hwyraf.

2. Fel arall, mae modd cyflwyno papurau enwebu drwy e-bost i **enwebiadau@caerffili.gov.uk** erbyn 4pm ar 3 Chwefror 2023 ar yr hwyraf. Dylai ffeiliau fod ar ffurf naill ai PDF neu JPEG, a nodwch enw'r ardal yr ydych chi'n ymgeisydd ynddi yn llinell pwnc y neges. Mae'r cyfeiriad hwn ar gyfer cyflwyno ffurflenni ffurfiol yn unig. I drefnu gwiriad anffurfiol, cysylltwch â'r Gwasanaethau Etholiadol.

   Noder:

   Cyfrifoldeb ymgeiswyr yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn cael ffurflenni enwebu yn y ffordd gywir erbyn y terfynau amser gofynnol.

   Nid yw derbynneb electronig o brawf bod cais wedi ei ddarllen gan y Swyddog Canlyniadau yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad i roi gwybod i ymgeiswyr am y penderfyniad ynghylch a yw eu henwebiad nhw'n ddilys ai peidio.

3. Mae modd cael papurau enwebu gan swyddfeydd y Swyddog Canlyniadau yn Nhŷ Gilfach, William Street, Gilfach, Bargod CF81 8ND yn ystod yr oriau uchod.

4. Os bydd rhaid cystadlu am y sedd yn yr etholiad, bydd y pleidleisio yn digwydd ar **ddydd Iau 2 Mawrth 2023** rhwng 7am a 10pm.

5. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy'r post, neu geisiadau i'w diwygio neu eu diddymu, gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Nhŷ Gilfach, William Street, Gilfach, Bargod CF81 8ND erbyn 5pm ar 15 Chwefror 2023.

6. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Nhŷ Gilfach, William Street, Gilfach, Bargod CF81 8ND erbyn 5pm ar 22 Chwefror 2023.

7. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy mewn argyfwng yn yr etholiad hwn, ar sail anabledd neu am resymau gwaith/gwasanaeth, gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Nhŷ Gilfach, William Street, Gilfach, Bargod CF81 8ND erbyn 5pm ar ddydd Iau 2 Mawrth 2023. Rhaid bod yr anabledd wedi digwydd ar ôl 5pm ar 22 Chwefror 2023. I wneud cais ar sail gwaith/gwasanaeth, rhaid bod y person wedi dod yn ymwybodol na all fynd i'r orsaf bleidleisio yn bersonol ar ôl 5pm ar 22 Chwefror 2023.

Christina Harrhy
Swyddog Canlyniadau
Tŷ Gilfach
Stryd William
Gilfach
Bargod
CF81 8ND

Dyddiad: 26 Ionawr 2023